Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Canolfan Feddygol Craig y Don
# Dyddiad y gweithgarwch: 17 Awst 2021

Dyddiad cyhoeddi: 8 Hydref 2021





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80391-034-5

© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ganolfan Feddygol Craig y Don fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Canolfan Feddygol Craig y Don yn rhan o'r gwasanaethau meddyg teulu a ddarperir yn yr ardaloedd a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad ag un o'r partneriaid Meddyg Teulu a Rheolwr y Practis ar 17 Awst 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?
- Pa mor effeithiol y gall y practis gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach, yn ogystal â gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd a gofal y tu allan i oriau ar hyn o bryd?
- Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau y caiff safonau atal a rheoli heintiau eu cynnal?
- Sut mae'r practis yn sicrhau y gall cleifion gael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel o ran yr amgylchedd a threfnu apwyntiadau?
- Sut mae'r practis yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?

- Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod trafodaeth Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol (DNACPR) wedi cael ei chynnal a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn ffordd briodol a sensitif?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- asesiad risg COVID-19 cyffredinol
- asesiad risg gweithio y tu allan
- asesiad risg brechlyn ffliw
- adnodd asesu amddiffyn y gweithle rhag COVID-19
- gweithdrefnau ardal aros y cleifion
- cwestiynau sgrinio COVID-19
- gweithdrefnau ystafell goch COVID-19
- gweithdrefnau cyfarpar diogelu personol (PPE)
- gweithdrefn ar gyfer cleifion sydd â thymheredd uchel wrth gyrraedd y feddygfa.

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom weld bod asesiadau risg amrywiol wedi cael eu cwblhau gan gynnwys asesiad risg COVID-19 cyffredinol, asesiad risg gweithio y tu allan ac asesiad risg brechlyn ffliw. Gwnaethom hefyd weld adnodd asesu amddiffyn y gweithle rhag COVID-19 oedd wedi cael ei gwblhau i ddangos bod y practis yn cydymffurfio â'r canllawiau diweddaraf.

Dywedwyd wrthym fod amgylchedd y practis wedi'i asesu er mwyn helpu a gwella trefniadau rheoli heintiau ar ddechrau pandemig COVID-19. Dywedwyd wrthym fod rhai ardaloedd o'r practis wedi'u hadnewyddu hefyd. Dywedwyd wrthym fod y newidiadau canlynol wedi'u gwneud:

- rhoddwyd gweithdrefnau desg clir ar waith a symudwyd unrhyw eitemau diangen
- tynnwyd y carpedi a gosodwyd llawr golchadwy yn yr ystafell aros, y coridor a'r ardaloedd clinigol
- symudwyd eitemau diangen, megis teganau a chadeiriau, o'r ardal aros
- gosodwyd sgrin persbecs yn y dderbynfa
- gosodwyd arwyddion cadw pellter cymdeithasol
- gorsafoedd cyfarpar diogelu personol (PPE) dynodedig
- gosodwyd system intercom fideo yn y brif fynedfa
- gosodwyd caban cludadwy ar gyfer cleifion risg uchel.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi aros ar agor drwy gydol pandemig COVID-19. Trefnodd y practis i'r cleifion gael ymgynghoriadau dros y ffôn. Staff y dderbynfa fyddai'n delio â'r galwadau a meddyg teulu fyddai'n eu brysbennu. Byddai unrhyw gleifion yr oedd angen iddynt weld clinigydd wyneb yn wyneb yn cael apwyntiad ymlaen llaw cyn dod i'r practis. O ganlyniad i'r cynnydd yn y defnydd o linell ffôn y practis yn ystod y pandemig, gosodwyd chwe llinell ffôn ychwanegol a gellid ychwanegu mwy yn y dyfodol.

Er mwyn diogelu'r staff a'r cleifion wrth gyrraedd y practis, dywedwyd wrthym fod system intercom fideo wedi'i gosod ger y brif fynedfa er mwyn i'r staff a'r cleifion gyfathrebu â'i gilydd heb fod angen i'r cleifion fynd i mewn i'r adeilad yn gorfforol. Er mwyn lleihau'r mynd a'r dod yn y practis ymhellach, dywedwyd wrthym ei fod yn cadw ffenestr ar agor wrth ochr yr adeilad er mwyn i'r staff siarad â'r cleifion a'u cynorthwyo. Hefyd trefnodd y practis i gaban cludadwy gael ei osod yn y maes parcio er mwyn i gleifion risg uchel dderbyn ymgynghoriadau wyneb yn wyneb.

Cawsom hefyd wybod y gall cleifion ddefnyddio eConsult[1] er mwyn cael gafael ar gyngor neu wybodaeth. Cawsom hefyd ein hysbysu bod y practis wedi dechrau defnyddio'r ap My Surgery[2] yn ddiweddar, ac mae'r ap wedi bod yn boblogaidd iawn ymhlith y cleifion hyd yma. Mae'r practis wedi annog y cleifion i ddefnyddio system Fy Iechyd Ar-lein[3] er mwyn archebu amlbresgripsiynau. Dywedwyd wrthym hefyd fod system dolen sain[4] ar gael i'r staff

[1] Mae eConsult yn galluogi practisau meddygon teulu'r GIG i gynnig ymgyngoriadau ar-lein i'w cleifion. Mae hyn yn galluogi'r cleifion i gyflwyno eu symptomau neu geisiadau i'w meddyg teulu eu hunain yn electronig, ac mae'n cynnig gwybodaeth hunangymorth y GIG ddydd a nos, gan gyfeirio cleifion i wasanaethau, a holiadur symptomau.

[2] Datblygwyd yr ap My Surgery i helpu cleifion i gael gafael ar wasanaethau cyn gynted â phosibl, a gellir derbyn diweddariadau newyddion, cael gafael ar wasanaethau ar-lein er mwyn trefnu apwyntiadau ac archebu meddyginiaeth, adnoddau iechyd, canllawiau fideo, a rheoli eu hiechyd eu hunain.

[3] Prosiect cenedlaethol wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i helpu i wella gofal cleifion yw Fy Iechyd Ar-lein. Mae'n galluogi cleifion i gyflawni rhai tasgau iechyd penodol yn ddiogel ar y we.

[4] Mae'r system dolen sain yn ddyfais gwrando gynorthwyol sy'n gweithio gyda chymorth clyw. Cyfeirir ati hefyd fel telecoil, neu system-T. Nod y system dolen sain yw lleihau sŵn cefndirol.

gyfathrebu â chleifion sy'n drwm eu clyw.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi cael brechiad COVID-19 yn ogystal ag asesiad risg er mwyn asesu risgiau personol parhau i gyflawni eu rôl yn ystod y pandemig a thynnu sylw at unrhyw addasiadau yr oedd angen eu gwneud i arferion gwaith.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn darparu gwasanaethau i gleifion sy'n byw mewn cartrefi gofal a bod ymweliadau wedi parhau drwy gydol y pandemig. Nodwyd bod y staff clinigol yn dilyn gweithdrefnau'r cartref gofal wrth fynd i mewn. Dywedwyd wrthym hefyd fod gan y practis weithdrefnau ar waith ar gyfer unrhyw glinigwyr sy'n ymweld â chartrefi.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- *COVID-19: Guidance for maintaining services within health and care settings*
- polisi rheoli heintiau
- amserlenni glanhau
- data ar hyfforddiant atal a rheoli heintiau ar gyfer yr holl staff.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod gan y practis bolisi ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau. Mae'r polisi wedi cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r broses o reoli COVID-19. Nodwyd bod y tîm yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd drwy e-bost ac yn ystod cyfarfodydd tîm, er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r canllawiau neu arferion.

Cawsom wybod bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn asesu a rheoli'r risg o haint. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gwblhau yn ddiweddar. Cadarnhaodd Rheolwr y Practis hefyd fod mwy o lanhau yn digwydd a bod defnydd da yn cael ei wneud o gyfarpar diogelu personol (PPE), gyda digon o gyflenwadau a oedd yn cael eu monitro yn rheolaidd. Gwelsom fod y gyfradd gydymffurfio ar gyfer hyfforddiant gorfodol ar atal a rheoli heintiau yn uchel iawn.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn y practis wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio PPE yn gywir, gan gynnwys ei wisgo a'i ddiosg, a'i waredu'n ddiogel.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis ystafell arbennig, ar wahân i'r brif ardal i gleifion, er mwyn ynysu cleifion pe bai angen, a bod system un ffordd ar waith.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cadarnhaodd Rheolwr y Practis fod mwy o lanhau yn digwydd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw restrau gwirio glanhau yn cael eu cynnal gan y glanhawyr. Cadarnhaodd y partner Meddyg Teulu a Rheolwr y Practis eu bod yn monitro'r safonau glendid yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid oes hapwiriadau / archwiliadau ffurfiol wedi eu cynnal o gwbl.

Mae'n rhaid i Reolwr y Practis sicrhau bod rhestrau gwirio glanhau yn cael eu cwblhau er mwyn dangos bod yr amgylchedd wedi cael ei lanhau yn effeithiol.

Dylai Rheolwr y Practis gwblhau archwiliadau glanhau rheolaidd a chofnodi ei chanfyddiadau.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio'r modd y mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- sesiynau briffio i'r staff ar COVID-19
- cyfarfodydd tîm staff y dderbynfa
- cyfarfodydd tîm y staff clinigol
- cynllun parhad busnes.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd Rheolwr y Practis yn glir iawn ac yn wybodus iawn am ei rôl ac roedd ganddi ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau. Roedd yn amlwg drwy gydol y gwiriad ansawdd bod gwaith cynllunio a gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i effaith COVID-19.

Gwelsom fod gan y practis gynllun parhad busnes oedd wedi cael ei adolygu. Mae'r cynllun yn

sicrhau parhad y gwasanaethau a ddarperir a gofal diogel y cleifion yn ystod y pandemig.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd Clwstwr[5] wedi parhau yn ystod y pandemig. Nodwyd bod grŵp Clwstwr Gorllewin Conwy yn cynnwys 12 o bractisau ac maent yn cydweithio'n dda iawn. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi derbyn cyllid, drwy'r grŵp Clwstwr, a wnaeth ei alluogi i osod caban cludadwy yn y maes parcio er mwyn gweld cleifion y gallent fod yn risg uchel. Nodwyd hefyd fod gan y practis nyrs arbenigol ym maes diabetes. Mae'r grŵp Clwstwr hefyd yn rhedeg cynllun peilot *My Life* sydd wedi ei anelu at gleifion sydd â mynegai crynswth corfforol (BMI) dros 30, er mwyn eu cynorthwyo i wneud newidiadau i'w ffordd o fyw er mwyn osgoi datblygu diabetes.

Fodd bynnag, nodwyd bod amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd wedi cynyddu yn ystod y pandemig sydd wedi rhoi llawer mwy o bwysau ar y practis. Dywedwyd wrthym hefyd fod disgwyl i'r practis gynnal profion gwaed ac arsylwadau rheolaidd cyn i gleifion fynychu unrhyw glinigau gofal eilaidd. Roedd y profion gwaed a'r arsylwadau rheolaidd hyn yn arfer cael eu cynnal gan staff yn y gwasanaethau gofal eilaidd, ac maent yn cynyddu llwyth gwaith y practis a'r gofynion sydd arno. Mae'r pryderon hyn wedi cael eu codi o fewn cyfarfodydd grŵp Clwster Gorllewin Conwy. Mae AGIC wedi nodi'r pryderon a godwyd gan y practis yn ystod y gwiriad ansawdd a bydd yn rhan o'r wybodaeth a gasglwn wrth ystyried ein dull seiliedig ar risg o arolygu ac uwchgyfeirio.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal a gwelsom dystiolaeth bod cofnodion manwl yn cael eu cadw.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

[5] Ystyr clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol. Caiff clystyrau eu pennu gan Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) unigol GIG Cymru. Mae meddygon teulu yn y Clystyrau'n chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith parhaus Rhwydwaith (iechyd) Ardal.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.
- Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Canolfan Feddygol Craig y Don

Dyddiad y gweithgarwch: 17 Awst 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Mae'n rhaid i Reolwr y Practis sicrhau bod rhestrau gwirio glanhau yn cael eu cwblhau er mwyn dangos bod yr amgylchedd wedi cael ei lanhau yn effeithiol. | Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi | Mae rhestrau gwirio ym mhob un o'r ystafelloedd clinigol erbyn hyn, a bydd Dirprwy Reolwr y Practis yn tynnu llun o bob rhestr wirio ar fore dydd Gwener, sy'n cynnwys gadael i'r dŵr lifo yng nghawodydd y toiledau fyny grisiau am gyfnod, gweler y lanlwythiad diweddaraf | Gill Caine / Alex Preece | Yn wythnosol o 2/9/2021 |
| 2 | Dylai Rheolwr y Practis gwblhau archwiliadau glanhau rheolaidd a chofnodi ei chanfyddiadau. | Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi | Mae archwiliadau misol yn cael eu cwblhau gan y cwmni glanhau, a lanlwythir i gyfrif diogel, a bydd Rheolwr y Practis yn cynnal archwiliad o'i phrosesau tua wythnos yn ddiweddarach bob dau fis. | Sue Fairburn | Bob dau fis o 1 Hydref |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy’n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar

waith.

| | |
|---|---|
| Enw: | Sue Fairburn |
| Dyddiad: | 20 Medi 2021 |